## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 13 Mawrth 2025 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-gadeirydd) ac Andrea Tomlin.

### HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW), Swyddog Adran 151 (LT), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS); Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Pennaeth y Gwasanaeth Cefnogi Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HV-E), Rheolwr Gwasanaethau AD (LD), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ), Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes (JE), Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Adfywio a Datblygu Economaidd (GR), Cydlynydd Craffu (RhE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (KJ), Gweinyddwr Pwyllgorau (NH) a Swyddog Gweinyddol Gwasanaethau Etholiadol (CMcB).

Roedd y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, yn bresennol ar gyfer eitem 5.

Roedd y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd, yn bresennol ar gyfer eitem 6.

Roedd y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, yn bresennol ar gyfer eitem 7.

**Hefyd yn bresennol ar gyfer eitem 10 (Rhan 2)** Cynrychiolwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig -
Rheolwr Gyfarwyddwr (JG), Pennaeth Llywodraethu a Chefnogaeth Busnes (AM) a Chyfrifydd y Cwmni (AJ)

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr James Elson, Chris Evans, Gwyneth Ellis, Brian Jones, James May ac Emrys Wynne.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Hugh Irving (Cadeirydd) a Paul Keddie.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd trafodion y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, a estynnodd ddymuniadau gorau'r Pwyllgor i'r Cadeirydd am wellhad buan.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ellie Chard gysylltiad personol ag eitem fusnes 6. 'Strategaeth Economaidd a Chynllun Gweithredu Sir Ddinbych', yn ei rôl fel cynrychiolydd Cyngor Tref y Rhyl ar Fwrdd Partneriaeth Twristiaeth Sir Ddinbych.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2025.

***<u>Penderfynwyd</u>:  derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

<u>Materion yn codi:</u>  Tudalennau 14 - 15, 'Trefniadau ar gyfer Adolygu Cyflwyniad y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd'.  Gan ymateb i ymholiad ar y cynnydd a wnaed o ran sefydlu'r grŵp tasg a gorffen i gynnal yr adolygiad, dywedodd y Cydlynydd Craffu fod swyddogion wedi dechrau'r broses o goladu adroddiadau perthnasol a gwybodaeth gefndir i gefnogi gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.  Roedd y Cydlynwyr Craffu i fod i gwrdd â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr wythnos ganlynol i adolygu'r dogfennau a gafwyd hyd yma a'u trefnu'n gronolegol er hwylustod y Grŵp.  Yn y cyfamser, oherwydd y newid diweddar yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grwpiau ynghylch a oedd y penodiadau a wnaed i'r Grŵp Tasg a Gorffen yn dal yn dderbyniol ganddynt.  Ar ôl cwblhau'r gwaith paratoi hwn, byddai dyddiad cyfarfod cyntaf y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei gyhoeddi.

## 5 CYNLLUNIO'R GWEITHLU, RECRIWTIO A CHADW STAFF, AC ABSENOLDEB SALWCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth a chynnydd ar gynllun y gweithlu a'r cynllun gweithredu cysylltiedig (gan gynnwys gweithgareddau recriwtio a chadw staff) a hefyd yn darparu data mewn perthynas â throsiant ac absenoldeb salwch ar gyfer 2024.

Roedd cynllunio'r gweithlu yn weithgaredd strategol pwysig a gynhyrchodd wybodaeth a data i gefnogi'r broses o sicrhau bod y Cyngor yn cyflogi'r bobl gywir, gyda'r sgiliau cywir, ac yn helpu i nodi hyfforddiant gan ddarparu gwybodaeth hanfodol am iechyd a lles staff.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth, data a chynnydd cyfredol. Roedd Atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa trosiant staff y Cyngor. Roedd Atodiad 2 yn cynnwys data absenoldebau salwch ar gyfer 2023/2024, a oedd yn cynnwys absenoldebau byrdymor, canolig a hirdymor. Roedd Atodiad 3 yn cynnwys manylion am gynllun gweithredu'r gweithlu.

Byddai ymarfer Cynllunio'r Gweithlu 2024 ar gyfer y Cyngor yn cychwyn ym mis Mawrth 2025 a byddai gan y Cyngor gynllun gweithlu corfforaethol newydd a chynllun gweithredu cysylltiedig ym mis Mai 2025. Roedd y gwaith ar y meysydd allweddol hyn yn cyfrannu at thema 6 y Cynllun Corfforaethol, sy'n sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn Gyngor effeithlon sy'n perfformio'n dda, gan ddarparu a mewnosod polisi lles staff, cefnogi hyfforddiant a datblygiad y gweithlu, hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a gweithio ar y cyd ledled y Cyngor, a chyda partneriaid i liniaru problemau gyda recriwtio a chadw staff.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl fwy o fanylion am yr adroddiad.

Roedd Archwilio Mewnol wedi cadarnhau bod gan y Cyngor gynllun recriwtio a chadw staff cadarn ar waith, a oedd yn cynnwys yr elfennau sylfaenol yr oedd eu hangen ac a oedd yn gweithio'n dda.

Y bwriad oedd i Gynllun y Gweithlu fod yn ddogfen fyw, yn gweithio ochr yn ochr â gwybodaeth o gyfarfodydd un-i-un a gynhelir yn rheolaidd gyda'r holl weithwyr, a fyddai'n darparu deialog barhaus ar ddata. Roedd yr ymarfer cynllunio'r gweithlu yn canolbwyntio ar bocedi o feysydd recriwtio a chadw staff yn hytrach na chyffwrdd â phethau'n ysgafn fel o'r blaen. Yr ymarfer cynllunio gweithlu newydd fyddai'r ymarfer ffurfiol cyntaf ers ffurfio strwythur rheoli newydd y Cyngor yn 2023.

Roedd trosiant staff yn 2022/23 ar ei gyfradd uchaf o 12.4%. Fodd bynnag, o 2023/24 ymlaen bu gostyngiad mewn trosiant staff, 11.40% ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, a 9.12% rhwng mis Ebrill 2024 a mis Rhagfyr 2024. Fel rheol, byddai sefydliad yn anelu at gyfradd trosiant o 10% neu lai. Roedd yn bwysig nodi bod cyfradd trosiant Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn is na chyfartaledd y DU o 16%.

Roedd absenoldeb salwch yn cael ei fonitro'n fisol ac roedd yr adroddiad yn cynnwys data'r gorffennol er mwyn galluogi aelodau i nodi unrhyw dueddiadau. Yn 2023/2024, y diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd oherwydd salwch oedd 9.12 diwrnod, sy'n ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol (9.56 diwrnod). Roedd yr adroddiad yn cynnwys y 5 prif reswm dros absenoldeb, a oedd yn gyffredinol gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd cynnydd yn y rhesymau anhysbys dros absenoldeb ac roedd y tîm yn gweithio gyda'r holl wasanaethau i weld sut y gellid mynd i'r afael â hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr aelodau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar y data ar gyfer y diwrnodau a gollwyd ar gyfartaledd. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl fod y data yn cael ei gasglu fesul gweithiwr. Yn 2023/2024 roedd cyfartaledd o 9.12 diwrnod wedi eu colli oherwydd salwch fesul gweithiwr.

Cwestiynodd yr aelodau'r data cymharu yn yr adroddiad a chwestiynwyd beth oedd y data yn cael ei gymharu ag o. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau AD fod data CSDd yn cael ei gymharu â data o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd data Cymru gyfan ar gael ar hyn o bryd oherwydd ymosodiad seiber a effeithiodd ar y system adrodd genedlaethol.

Dywedodd yr Aelodau ei bod yn ymddangos mai data'r gorffennol oedd yn yr adroddiad, a holwyd a oedd data 'amser real' ar gael a pha mor hygyrch oedd y data hwn. Gofynnodd yr aelodau hefyd i'r niferoedd gwirioneddol gael eu defnyddio ar gyfer y data yn ogystal â ffigurau canrannol. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl fod yr adroddiad yn cynnwys data'r gorffennol oherwydd bod y data'n cael ei gasglu bob chwarter. Y data diweddaraf a oedd ar gael oedd o fis Rhagfyr 2024. Byddai data'n cael ei gasglu eto ar ddiwedd mis Mawrth 2025 a gallai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r Pwyllgor pe bai'r aelodau'n dymuno ei chael. Roedd data 'amser real' yn sensitif ac wedi'i gyfyngu i Benaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr ac AD.

Byddai sylwadau ynghylch cynnwys data rhifau yn yr adroddiad yn hytrach na chanrannau yn unig yn cael eu hystyried a'u hymgorffori mewn adroddiadau yn y dyfodol, os yn bosibl, yn ogystal â darparu adroddiad ystadegol misol i aelodau ar niferoedd staffio ac absenoldebau fesul maes gwasanaeth.

Dywedodd yr aelodau y byddai data o gyfweliadau gadael yn werthfawr. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl fod cyfweliadau gadael yn wirfoddol a'u bod yn cael eu cwblhau'n electronig, neu fod cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu. Byddai cadw'r data hwn yn fyw yn cael ei ystyried yn y dyfodol ac roedd eisoes wedi'i gynnwys mewn Cynlluniau Busnes Gwasanaeth bob chwarter.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) yn cael ei ystyried o fewn y Gwasanaeth AD. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl fod gan y system AD bresennol y gallu i wella ac awtomeiddio'r broses recriwtio. Roedd recriwtio wedi'i nodi fel maes i'w archwilio fel rhan o Raglen Drawsnewid y Cyngor. Roedd y gwaith i fod i ddechrau dros y misoedd nesaf. Unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, efallai y gellid archwilio defnydd posibl Deallusrwydd Artiffisial mewn prosesau AD.

Cyfeiriodd yr aelodau at baragraff 4.11 yr adroddiad, a oedd yn nodi y bu 226 o ymadawyr (pobl) a 231 (swyddi) yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Rhagfyr 2024, a bod nifer y staff hefyd wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn, o 28 swydd. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y termau pobl a swyddi. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl fod y data pobl yn ymwneud â faint o bobl oedd wedi gadael y Cyngor, a'r data swyddi'n cyfeirio at faint o bobl

oedd wedi gadael y Cyngor gan adael llawer o swyddi'n wag. Gallai gweithiwr y Cyngor fod â mwy nag un swydd/rôl yn ei swydd-ddisgrifiad.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd newid mewn arferion codi a symud yn gorfforol ym maes gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r system gwastraff ac ailgylchu newydd wedi arwain at nifer uwch o staff i ffwrdd yn sâl oherwydd problemau Cyhyrysgerbydol. Dywedodd swyddogion fod gan y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol raglen gadarn o hyfforddiant codi a symud yn gorfforol yr oedd yn ei darparu i staff, a bod arferion gwaith yn cael eu monitro'n rheolaidd, gyda phwyslais cryf yn cael ei roi ar bwysigrwydd diogelwch y gweithwyr unigol. Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd cyfraddau absenoldeb salwch a chyfraddau trosiant staff yn y Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol (lle'r oedd y gwasanaeth casglu gwastraff) yn uwch na'r disgwyl bob blwyddyn. Gyda'r nod o geisio sicrhau nad oedd staff yn torri corneli wrth ymgymryd â thasgau codi a symud yn gorfforol ac yn peryglu eu diogelwch eu hunain ac eraill, awgrymodd yr Aelod Arweiniol y gallai Cydbwyllgor Ymgynghorol y Cyngor ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr archwilio'r ddarpariaeth o hyfforddiant codi a symud yn gorfforol i staff a'r trefniadau monitro ar gyfer cydymffurfiaeth staff â'r canllawiau a ddarperir.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad ac am bresenoldeb y Swyddogion.

Ar ddiwedd y drafodaeth drylwyr:

***Penderfynodd* y Pwyllgor: yn amodol ar hyfywedd y camau gweithredu a nodwyd yn ystod y drafodaeth sy'n cael ei harchwilio, -**

***(i)*** ***cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd;***
***(ii)*** ***cydnabod a chefnogi'r gwaith parhaus o fonitro proses gynllunio'r gweithlu, cynllun gweithredu'r gweithlu, trosiant staff ac absenoldebau; a***
***(iii)*** ***cais am gyflwyno adroddiad cynnydd pellach ar Gynllunio'r Gweithlu, Recriwtio, Cadw staff ac Absenoldeb Salwch i'r Pwyllgor ym mis Mehefin/Gorffennaf 2026.***

## 6 STRATEGAETH ECONOMAIDD A CHYNLLUN GWEITHREDU SIR DDINBYCH

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Hugh Irving a/ac Paul Keddie

## 7 INCWM MEYSYDD PARCIO

Cyflwynodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth a'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) ar Incwm Meysydd Parcio i'r Aelodau.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth am yr incwm ychwanegol o feysydd parcio a ragamcanwyd y byddai'n deillio o gynyddu'r prisiau parcio, ymestyn yr oriau codi tâl am barcio a chodi tâl mewn meysydd parcio a oedd am ddim yn flaenorol.

Rhoddodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd fwy o fanylion i'r aelodau, a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Fel rhan o'r gwaith i gyflawni arbedion a chynyddu incwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, cafodd y mesurau canlynol eu rhoi ar waith ar gyfer ein meysydd parcio, a rhagwelwyd y byddai'r rhain yn cynhyrchu £699 mil o incwm ychwanegol:

- Cynyddu'r holl brisiau mewn meysydd parcio talu ac arddangos.
- Ymestyn yr oriau codi tâl yn y meysydd parcio tan 11pm (5pm yn flaenorol)
- Cynyddu prisiau trwyddedau meysydd parcio.
- Codi tâl ar gyfer rhai meysydd parcio am ddim.

Roedd y cynnydd a ragwelwyd o £699 mil yn cynnwys £591 mil o'r cynnydd yn y prisiau, £60 mil o barcio min nos, £30 mil o godi tâl mewn meysydd parcio am ddim, a £18 mil o gynyddu'r pris am drwydded. Mae eglurhad o ran cyfrifo'r ffigyrau unigol hyn yn Atodiad A yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'r rhagamcanion presennol yn amcangyfrif y bydd yr incwm ychwanegol o feysydd parcio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 yn sylweddol is na'r targed a ragwelwyd yn wreiddiol. Byddai cymhwyso cynnydd o 19.2% am weddill y flwyddyn ariannol yn arwain at £295 mil o incwm ychwanegol o gymharu â blwyddyn ariannol 2023/24. Byddai hyn yn cynrychioli diffyg o £404 mil yn is na'r targed cynnydd incwm o £699 mil.

Roedd yr hen dariffau a'r tariffau newydd i'w gweld yn Atodiad B. Mae'r tabl yn Atodiad C yn cymharu incwm talu ac arddangos fesul tref, ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill i fis Tachwedd 2024, gan gynnwys y misoedd hynny, ac ar gyfer yr un cyfnod yn 2023. Dangoswyd gwahaniaeth mawr yn y cynnydd o ran incwm parcio mewn rhai trefi o gymharu â rhai eraill.

Mae'r polisi presennol o osod prisiau parcio yn ôl y math o faes parcio (h.y. boed yn arhosiad hir neu arhosiad byr) yn anhyblyg ac yn trin pob tref / pentref fel pe baent yr un fath, ac nid yw hyn yn wir. Cynigiwyd creu system newydd i sicrhau bod tariffau yn seiliedig ar y galw. Byddai hyn yn golygu codi tariffau uwch ar feysydd parcio y mae galw mawr amdanynt a thariffau is ar gyfer meysydd parcio gyda llai o alw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Roedd yr aelodau'n anghyfforddus ynglŷn â chodi tâl ar feysydd parcio di-dâl yn y Sir. Teimlwyd nad oedd digon o leoedd parcio am ddim yng nghanol trefi i alluogi ymwelwyr i ymweld a gwario arian. Eglurodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd fod llawer o barcio am ddim ar ymyl y ffordd mewn trefi a phentrefi, ac y byddai data yn dangos hyn yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod yn y dyfodol. Roedd yn bwysig cael y cydbwysedd cywir rhwng parcio am ddim a pharcio am dâl.

Gofynnodd yr aelodau a oedd trwyddedau parcio'n cael eu hysbysebu, gan nad oedd llawer o drigolion yn ymwybodol ohonynt. Eglurodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd fod hawlenni parcio yn cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor ac ar wefannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd Canolfan Alwadau'r Cyngor hefyd yn

eu hyrwyddo mewn ymateb i ymholiadau a gafwyd. Bu cynnydd o 17% yn y gost o brynu trwyddedau parcio, a nodir yn yr adroddiad.

Holodd yr Aelodau sut roedd prisiau parcio'r Sir yn cymharu â thariffau mewn awdurdodau lleol eraill. Eglurodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad fod ymarfer cymharu prisiau'n cael ei gynnal bob tro yr oedd adolygiad o'r prisiau parcio ceir, er mwyn cymharu prisiau â'r 5 Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru. Yn ddiweddar bu cynnydd pellach mewn tariffau mewn awdurdodau cyfagos, ac felly mae meysydd parcio Sir Ddinbych yn codi tariffau is ar hyn o bryd.

Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd parcio am ddim yn y Sir ymhellach, a'r gwahaniaeth y gallai ei wneud i fusnesau lleol ac ymwelwyr. Dywedodd y swyddogion, er bod maes parcio am ddim ar ymyl y ffordd ar gael ym mhob tref ac, mewn rhai ohonynt, roedd y cynghorau tref yn darparu cyfnod o amser rhydd ar gyfer parcio mewn rhai meysydd parcio, roedd angen sicrhau cydbwysedd da os oedd y Cyngor Sir am allu fforddio buddsoddi i gynnal y meysydd parcio yn ei berchnogaeth.

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid trefnu gweithdy i aelodau etholedig ar y strwythur prisiau maes parcio newydd arfaethedig, er mwyn galluogi'r holl aelodau i gyfrannu ato a dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y strwythur tariffau. Cafodd hyn ei gynnig, ei eilio a’i gytuno gan holl aelodau’r Pwyllgor.

Anogodd yr aelodau y swyddogion i ailystyried codi tâl am barcio ar ôl 5pm. Dywedodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd fod llawer o adborth wedi dod i law ynghylch codi tâl gyda'r nos, a bod trafodaethau'n parhau a fyddai'n cael eu hadlewyrchu yn y cynnig.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddogion am ddod i’r cyfarfod.

Ar ddiwedd y drafodaeth drylwyr:

***Penderfynodd*** y Pwyllgor:

***(i)*** ***dderbyn yr adroddiad, cadarnhau ei gynnwys, ei ganfyddiadau a chamau gweithredu pellach arfaethedig;***
***(ii)*** ***yn amodol ar ystyried yr awgrymiadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth, bod strwythur prisiau maes parcio newydd arfaethedig yn cael ei ddatblygu gan swyddogion a'i ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor Craffu yn yr Hydref 2025; ac***
***(iii)*** ***fel rhan o ddatblygiad y strwythur prisiau maes parcio newydd arfaethedig, cynhelir gweithdy i bob aelod i alluogi pob cynghorydd i gyfrannu at y gwaith datblygu.***

**8 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu’r adroddiad a’r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i’r cyfarfod i drafod y rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor.

Roedd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi'i drefnu ar gyfer 1 Mai 2025. Roedd tair eitem ar y Rhaglen Waith.

- Cofrestr Risgiau Corfforaethol: Adolygiad mis Chwefror 2025
- Prosesau a Gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer gwneud cais am arian grant gwerth uchel
- Cysylltedd y Rhyngrwyd a Theleffoni yn Sir Ddinbych

Mewn cyfarfod o'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu yn gynharach yn yr wythnos, roedd y Grŵp wedi cymeradwyo cais gan aelod am adroddiad ar faterion yn ymwneud â 'Meddalwedd System Gynllunio' i'w archwilio gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025. Yn ogystal, roedd cais brys yn debygol o ddod i law i'r Pwyllgor, yn ei gyfarfod ym mis Mai 2025, i archwilio'r cynigion a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Addysg ar gyfer defnyddio'r £500K ychwanegol a ddyrannwyd iddo fel rhan o broses gosod cyllideb 2025/26. Roedd cyfarfod nesaf Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wedi'i drefnu ar gyfer 28 Ebrill ac anogwyd yr aelodau i gyflwyno Ffurflen Cynnig Aelodau os oedd ganddynt eitem yr hoffent iddi gael ei hystyried.

Roedd Rhaglen Waith y Cabinet ynghlwm yn Atodiad 3 er gwybodaeth ac roedd Atodiad 4 yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd penderfyniadau'r Pwyllgor.

***<u>Penderfynwyd:</u>***

***yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, y pwnc a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod yn gynharach yr wythnos honno, ynghyd â'r posibilrwydd o gynnwys adroddiad ar ddefnyddiau posibl ar gyfer y cyllid ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer y Gwasanaeth Addysg fel rhan o broses gosod cyllideb 2025/26 i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Mai 2025, i gadarnhau rhaglen waith y Pwyllgor a amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad.***

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth a fyddai'n cael ei thrafod o dan yr eitem ganlynol, cynigodd y Cynghorydd Bobby Feeley y dylid symud y cyfarfod i Ran II, eiliodd y Cynghorydd Andrea Tomlin y cynnig. Fodd bynnag, cwestiynodd rhai aelodau etholedig a oedd hyn yn briodol ac yn angenrheidiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes a'r Swyddog Monitro, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â busnes a materion ariannol y Cyngor a phartïon eraill, na fyddai'n briodol trafod cynnwys yr adroddiad mewn fforwm cyhoeddus ar hyn o bryd. Ar ôl derbyn y cyngor hwn, rhoddwyd pleidlais ar y cynnig i gynnal y drafodaeth mewn sesiwn breifat, a thrwy benderfyniad mwyafrif y Pwyllgor:

***PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**10 HAMDDEN SIR DDINBYCH CYF.**

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes a'r Swyddog Monitro yr aelodau drwy adroddiad cyfrinachol (dosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn manylu ar strwythur amgen arfaethedig ar gyfer Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

Bu'r Aelodau'n trafod yn fanwl amrywiol agweddau ar y dull amgen arfaethedig. Yn ystod y drafodaeth, codwyd cwestiynau ar faterion yn amrywio o:

- gynigion y cyfranddalwyr
- gwerth ariannol cyfredol pob agwedd ar fusnes Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig
- graddau'r gwaith diwydrwydd dyladwy a wnaed ar y darpar fuddsoddwr a'i Gynllun Busnes arfaethedig
- telerau ac amodau gweithwyr a hawliau pensiwn
- rheoli cymhorthdal a dadreoleiddio
- dyfodol Fframwaith Hamdden y DU
- effaith y cynigion ar y contract presennol rhwng y Cyngor a Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig, a threfniadau rheoli contract arfaethedig yn y dyfodol.

Cafwyd atebion gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes a'r Swyddog Monitro, Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig a Swyddog Adran 151 y Cyngor.

Cyn gadael y cyfarfod, cadarnhaodd Rheolwr-gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ei fod wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd staff i amlinellu'r cynigion ac ateb eu cwestiynau. Roedd hefyd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr undebau llafur staff i drafod y cynigion.

Gadawodd cynrychiolwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor drafod y cynigion ymhellach gyda swyddogion y Cyngor ac ystyried ei argymhellion.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes a'r Swyddog Monitro wrth yr aelodau fod cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir wedi'i drefnu ar gyfer 26 Mawrth 2025 er mwyn trafod y cynigion yn fanwl cyn rhoi cyfle i bob aelod bleidleisio arnynt.

Hyd yma, cynhaliwyd dau weithdy i'r holl aelodau i egluro'r cynigion a gyflwynwyd. Yn ogystal, roedd cynrychiolwyr o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig wedi cyfarfod â grwpiau gwleidyddol y Cyngor i ateb eu cwestiynau ar y cynigion. Nod cyflwyno'r cynigion i'r Pwyllgor Craffu oedd ei alluogi i nodi pa wybodaeth bellach yr oedd

angen ei chynnwys yn yr adroddiad i'r Cyngor Sir, er mwyn galluogi aelodau etholedig i wneud penderfyniad ar y cynigion.

Ar ddiwedd trafodaeth ddwys, drwy bleidlais fwyafrifol:

***Penderfynwyd**: er mwyn galluogi'r Cyngor Sir i wneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas â strwythur cwmni arall ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden, y dylid darparu'r wybodaeth ganlynol i gynghorwyr sir cyn cyfarfod arbennig y Cyngor ar 26 Mawrth 2025 –*

***(i)** eglurhad ar ddiben a gwerth cynigion y cyfranddalwyr (gan gynnwys beth fyddai'n digwydd i gyfranddaliadau a ddychwelir i'r cwmni pan fyddai gweithiwr yn gadael ei swydd, ac a fyddai gweithwyr yn cael taliad am gyfranddaliadau a ddychwelwyd)*
***(ii)** manylion wedi'u gwirio am werth cyfredol asedau, benthyciadau a rhwymedigaethau Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig, ynghyd â gwybodaeth am beth fyddai'n digwydd i'r rhain ar drosglwyddo pe bai strwythur y cwmni arall yn cael ei gymeradwyo*
***(iii)** darparu adroddiad prisio cyfredol ar Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ynghyd â mantolenni / cyfrifon cyfredol ar gyfer y busnes*
***(iv)** darparu adroddiad diwydrwydd dyladwy ar y darpar fuddsoddwr, gan gynnwys maint y gwaith diwydrwydd dyladwy a wnaed*
***(v)** darparu Cynllun Busnes arfaethedig y cwmni amgen posibl yn y dyfodol*
***(vi)** eglurhad ar Delerau ac Amodau gweithwyr yn y dyfodol o dan drefniadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth, gan gynnwys eu hawliau pensiwn a ddiogelir a'u hawliau pensiwn yn y dyfodol*
***(vii)** eglurhad o'r sefyllfa o ran rheoli cymhorthdal a'r gofynion dadreoleiddio pe bai'r strwythur cwmni amgen arfaethedig yn cael ei gymeradwyo*
***(viii)** cadarnhad ar berchnogaeth a hawliau sy'n gysylltiedig â Fframwaith Hamdden y DU pe bai'r strwythur cwmni amgen arfaethedig yn cael ei gymeradwyo*
***(ix)** gwybodaeth am ymrwymiadau'r cwmni / buddsoddwr amgen posibl i fesurau lleihau carbon a chefnogi uchelgais y Cyngor i ddod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030*
***(x)** manylion y newidiadau sydd eu hangen i'r contract presennol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden, ynghyd â threfniadau rheoli contract yn y dyfodol, pe bai'r strwythur cwmni amgen arfaethedig yn cael ei gymeradwyo.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10pm